



Russell George AC  
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a  
Sgiliau

11 Ionawr 2019

Annwyl Russell

Diolch yn fawr ichi am eich llythyr ar 10 Rhagfyr ynghylch y sesiwn craffu ar Gyllideb Ddrafft 2019-20 ac am eich sylwadau a'ch cais am wybodaeth. Byddaf yn ymdrin â phob agwedd yn ei thro.

### **Paratoi ar gyfer Brexit**

Pa fath bynnag o Frexit gawn ni, caiff dyfroedd eu corddi. Dyna pam, a ninnau'n llywodraeth gyfrifol, ein bod yn cynllunio ar gyfer pob canlyniad posib.

Mae'n hollbwysig bod holl weinyddiaethau'r DU yn cydweithio i gynllunio i liniaru rhai o'r effeithiau mwyaf difrifol pe bai'r trafodaethau rhwng y DU a 27 yr UE yn chwalu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gryf i hyn.

Rydym wedi gofyn yn groch ac yn aml ar i Lywodraeth y DU rannu gwybodaeth â ni ynghylch yr hyn y mae'n ei wneud i baratoi. Mae'n dda gweld ei bod yn dechrau gwneud hyn, ond mae angen cryfhau'r llif gwybodaeth ymhellach. Y gwir amdani yw bod ein gallu i gynllunio yn dibynnu ar faint y bydd Llywodraeth y DU yn ei rannu â ni. Byddai'n drychinebus pe bai'r DU yn gadael yr UE yn ddiseremoni heb gytundeb a dyna pam ein bod wedi gweithio mor ddiflino i osgoi hynny.

Er gwaetha'r ansicrwydd, aethom ni ati'n syth ar ôl y refferendwm i grynhoi'n hadnoddau ac i ddatblygu medrau'r llywodraeth gyfan i ymateb i Frexit. Gwnaethon ni'n siŵr felly o'r dechrau ein bod yn trafod yn helaeth â'n rhanddeiliaid i ddeall eu pryderon a'u blaenoriaethau ac i weithio'n galed i gynnig polisiau ystyrlon a chydlynol i ddylanwadu ar safiad Llywodraeth y DU yn ei thrafodaethau ymadael ac i baratoi ar gyfer myrdd o ganlyniadau posib.

Rydyn ni wedi paratoi cynigion polisi manwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch sut y gallai'r math iawn o Frexit amddiffyn swyddi ac rydyn ni wedi rhoi cynigion ger bron hefyd ar fasnach, mewnfudo, dyfodol y DU ac amrywiaeth o bynciau eraill ar gyfer y byd ar ôl gadael. Rydyn ni wedi neilltuo cronfa o £50m hefyd i helpu cyrff a sefydliadau ar draws Gymru i baratoi ar gyfer Brexit.

O'r arian hwn, mae prosiect Cryfhau Busnesau gwerth £7.5m wedi'i gymeradwyo. Mae'r arian hwn wedi rhoi'r modd inni helpu busnesau i baratoi ac ymateb i heriau Brexit, ac mae'n cynnwys arian ar gyfer grant newydd ar gyfer Cryfhau Busnesau. Rydyn ni wedi

neilltuo arian hefyd ar gyfer Rhaglen Cymorth Pontio Brexit ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

## **Teithio Llesol**

Wrth wneud cais am arian Llywodraeth Cymru ac yn unol â'r canllawiau, rhaid i awdurdodau lleol ddangos eu bod wedi dilyn Arweiniad Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WeITAG) a'u bod yn datblygu'u cynigion gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Gronfa Teithio Llesol yn aml iawn yn ategu arian o ffynonellau eraill, megis cyfraniadau datblygwyr a buddsoddiadau cyfalaf eraill, fel rhai mewn twristiaeth ac adfywio ac yn yr ardaloedd menter. Mae'r broses ymgeisio am y grant yn annog yr ymgeisydd i chwilio am arian cyfatebol - mwya'n y byd o arian cyfatebol a geir, ucha'n y byd y bydd y sgôr. Ond nid yw cael arian cyfatebol yn amod ariannu. Mae'r system sgorio'n cynnwys elfen ar gyfer monitro a gwerthuso cynlluniau sy'n cael eu hariannu a gwerth y cynllun am yr arian.

I weld canllaw ymgeisio'r Grant Trafnidiaeth Lleol ac amodau sgorio'r Gronfa Teithio Llesol, ewch i:

<https://beta.llyw.cymru/grantiau-trafnidiaeth-canllawiau-2019-20>

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/asesu-cais-am-grant-cyfalaf-meini-prawf-a-phwysoliad-19-20.pdf>

## **Cyflwr y Ffyrdd**

Rwy'n meddwl y byddai'n syniad da esbonio'r £60m sydd wedi'i neilltuo. Roedd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 2 Hydref yn neilltuo £60m o gyfalaf i awdurdodau lleol dros 3 blynedd i drwsio'r priffyrdd. Er nad yw'r rhan fwyaf o'r arian cyfalaf sy'n cael ei roi i awdurdodau lleol yn cael ei glustnodi, grant penodol yw hwn, i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei wario at y diben penodol hwn.

Rydych chi'n holi am ychwanegedd. Mae trwsio priffyrdd yn wariant cyfalaf ac yn wahanol i'r gwariant refeniw ar gynnal a chadw gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i wella'r ffyrdd lleol gyda golwg ar estyn oes yr ased. Dylai hyn leihau'r pwysau ar gyllidebau refeniw cynnal a chadw awdurdodau lleol yn y dyfodol ond ni fydd modd dangos bob tro yr elfen o ychwanegedd i'r cyllidebau refeniw. Fodd bynnag, un o amodau arferol grantiau o'r fath yw bod yr Awdurdod yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru sut y mae'n defnyddio'r arian a'i fod yn diweddarau'i gynlluniau rheoli asedau yn ogystal â pharhau i weithio gyda ni i fonitro a gwerthuso cyflwr ffyrdd ledled Cymru.

## **Y tarfu ar y rheilffyrdd**

Cefais drafodaeth â chi am y problemau diweddar ar ein rheilffyrdd. Bu'n rhaid i Trafnidiaeth Cymru (TrC) wynebu cyfuniad o anawsterau oherwydd tywydd yr hydref a'r difrod a wnaed i gerbydau gan Storm Callum. Aeth peirianwyr ati mor gyflym â phosib i unioni'r problemau â'r cerbydau ac roedd y gwasanaethau yn ôl fel y dylen nhw fod ar bob un o lwybrau TrC erbyn dydd Llun 17 Rhagfyr.

TrC fydd yn atebol am y materion hyn o hyd a byddaf am adroddiadau rheolaidd ganddynt i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â'n disgwyl. Mae TrC wedi ymrwymo i sicrhau na fydd problemau rheolaidd fel tywydd yr hydref yn cael cymaint o effaith yn y

dyfodol. Mae nhw wedi addo imi y gwelith cwsmeriaid rhwydwaith Cymru a'r Gororau newid mawr ymhen y flwyddyn.

Bydd TrC yn cyfnewid y fflyd gyfan am un newydd yn y dyfodol fel rhan o £800m o fuddsoddiad ac mae £40 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y fflyd bresennol. Bydd y buddsoddiad hwn yn talu am wasanaethau ychwanegol ac am wella'r profiad i gwsmeriaid a hygyrchedd. Bydd y trenau cynta'n cyrraedd yn 2019.

Mae'r buddsoddiad mewn cerbydau'n bosib diolch i strwythur y contract, sy'n cael ei ariannu trwy'n Grant Cytundeb ODP.

## **Dyfodol Trafnidiaeth Cymru**

Diolch am ddweud wrthyf am eich ymchwiliad i'r modd y mae TrC yn cael ei ddatblygu a'i lywodraethu. Rwy'n disgwyl ymlaen at dderbyn eich adroddiad maes o law.

## **Cymorth i fusnesau a Chronfa Dyfodol yr Economi**

Rwy'n gwerthfawrogi diddordeb y Pwyllgor yng Nghronfa Dyfodol yr Economi ac yn agweddau ehangach y model gweithredu newydd a gyflwynwyd gan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, gan gynnwys y Meysydd Gweithredu a'r Contract Economaidd. Maen nhw'n bynciau pwysig ac rwyf am fod yn siŵr bod y Pwyllgor yn deall y broses yn llawn ac yn cael cyfle i drafod unrhyw bryderon sydd ganddo. I'r perwyl hwn, hoffwn i'r Pwyllgor ddod i sesiwn briffio technegol gyda'm swyddogion lle cewch weld sampl ddiennw o Gontractau Economaidd ac esboniad o'r broses.

## **Yr economi sylfaenol**

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi'n clustnodi pedair sector sylfaen (bwyd; adwerthu; gofal a thwristiaeth) lle ceir cyfle i weithio'n fwy effeithiol ar draws y Llywodraeth a chyda'r sectorau i gynyddu'r buddiannau. I arwain gweithgarwch ar draws y Llywodraeth a helpu'r sectorau i weithio'n gytûn i daclo problemau cyffredin, rydyn ni wedi ymrwymo i lunio un cynllun galluogi integredig. Bydd yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd strategol sy'n gyffredin i'r pedair sector a'r polisïau sydd eu hangen i ymateb iddynt.

Er mwyn ein helpu i ddatblygu'r cynllun galluogi, rydym wedi creu is-grŵp o'r Bwrdd Cynghori Gweinidogion ar yr Economi Sylfaenol, a byddwn yn cynnal gweithdy ym mis Chwefror 2019 gyda'n prif randdeiliaid ac arbenigwyr domestig a rhyngwladol blaenllaw. Rydym yn awyddus bod yr arbenigwyr hyn yn cael digon o amser i helpu i lunio'r cynllun galluogi ac felly rwy'n rhagweld y caiff y cynllun galluogi ei gyhoeddi yn chwarter cyntaf 2019. Mae'r £1.5m gafodd ei neilltuo fel rhan o'r cytundeb gyda Phlaid Cymru ar gyllideb 2017 ar gael o hyd a bydd y gwaith gydag is-grŵp y Bwrdd Cynghori Gweinidogion yn ein helpu i benderfynu sut orau i ddefnyddio'r gyllideb honno.

Yn gywir



## **Ken Skates AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
Cabinet Secretary for Economy and Transport